

## Iaith Capten

Braint cael traddodi Darlith Goffa Hedley Gibbard, a fu'n weinidog arna i am flynyddoedd yn Soar Nefyn, ac wedyn fel pennaeth am gyfnod yn Uned gyfieithu Cyngor Gwynedd. Bu'n gefnogol iawn gan agor y drws i mi gael dechrau gweithio ar y cynllun Cymraeg Clir a arweiniodd wedyn at brosiectau eraill difyr. Coffa annwyl iawn hefyd am ei wraig Mair a fu farw'n ddiweddar. Diolch i Geraint Parry a Nia am y gwahoddiad.

Mae'r nofel *Capten* wedi cael croeso cynnes dros y flwyddyn ddiwetha, ac erbyn hyn mae yna fersiwn print bras a Llafar ohoni ac mae hi'n dal i werthu. Pan godais ar fy nhraed flwyddyn yn ôl yn y seremoni fu dim rhaid i mi ddweud gair, ac ar adegau yn ystod y flwyddyn rydw i wedi gorfod cadw fy ngheg ar gau ynghylch *Capten*. Ond bu cyfle mewn cylchoedd trafod a grwpiau darllen a chylchoedd llenyddol i sôn am ei themâu hi, ei chefnidir, yr ymchwil ac ati. Heddiw mi rydw i yma i siarad am un agwedd yn benodol arni, sef yr iaith, y Gymraeg.

**Yr iaith**, yn iaith lenyddol a thafodieithol ydi un o'r pethau y mae pobol wedi fwynhau am **Capten**. Yn ystod y flwyddyn ers cyhoeddi'r nofel, dwi wedi cael ymateb rhyfeddol iddi, ac mae degau lawer o bobol wedi dod ataf ar y stryd, mewn cylchoedd llenyddol, mewn cyfarfodydd a digwyddiadau cymdeithasol/wedi anfon negeseuon ar y we/cardiau a llythyrau i ddweud eu bod wedi cael dileit ynddi. Un o'r pethau sy'n cael ei grybwyll dro ar ôl tro ydi'r iaith. Yr ymateb cyntaf ges i ar faes Tregaron y llynedd oedd neges gan y ffotograffydd Richard Jones, bosib eich bod yn gweld ei luniau gwych ar y trydar 'Clywed acenion Llŷn,' meddai ac, 'a chlywed yn glir lais fy nhad, oedd yn llongwr o Roshirwaun'. O dderbyn y neges yna, drwy fy ffôn, mi ges i ryw hyder, ar ôl y dwrdio a fu y 'byddai popeth yn iawn'. Mae llyfr da yn byw tu hwnt i feirniadaethau.

Roedd pobol yn dweud eu bod yn clywed lleisiau ei neiniau a'u teidiau wrth ei darllen, a dywedodd Esyllt Penri yn y golofn **Y Llyfrau yn fy Mywyd yn Golwg** ei bod yn codi rhyw hiraeth arni am gyfnod tu hwnt i'w chof a'i hadnabyddiaeth. Roedd llawer o bobl Llŷn ac Eifionydd yn crybwyll eu bod wedi gweld ynddi ddywediadau ac ymadroddion a geiriau roedden nhw wedi anghofio am eu bodolaeth – poeni dim botwm corn, dim blotyn gwaeth, hwyl ar y mastiau, y gair 'bynafyd' (gair y byddai fy nhaid yn ei ddefnyddio, meddai un). Roedd yr iaith yn mynd â phobol i gyfnod mewn hanes nad oedd neb byw yn ei gofio, gan eu hargyhoeddi eu bod yn y fan a'r lle. Wrth gwrs, creu argraff oeddwn i, cyn agosed ag y gallwn i, o sgwrs a siarad y cymeriadau – creu byd credadwy. Mynd â'r darllenydd yn ôl i'r cyfnod pan oedd y gymdeithas yn un lawn o bobol uniaith Gymraeg.

**Ond be oedd y cefndir a arweiniodd at ei sgrifennu hi, ac a'i gwnaeth yn bosib i mi ei sgwennu?**

Roeddwn i'n un o'r to ffodus a aeth i Goleg y Brifysgol Bangor yn ail hanner y saithdegau i astudio'r Gymraeg ar anogaeth daer Mam oedd wedi colli'r cyfle am addysg uwch gan adael yr ysgol yn 16 oed i helpu ei mam gartra ar y fferm i fwydo tri brawd, ei thad a thri gwas heb sôn am yr anifeiliaid. A chadw fisitors! Yr unig arholiadau a basiodd hi oedd arholiadau'r Orsedd, er mawr falchder iddi. Carai lenyddiaeth Gymraeg (er doedd hi ddim yn or-hoff o 'ryw hen farddoniaeth'!) a throsglwyddodd y cariad hwnnw i mi.

Yr adeg honno, yn 1976, roedd Bangor ymhell o Boduan a Nefyn, roedd yn newid byd! Roeddwn i'n fyfyrwraig awchus am wybodaeth a dysg! Er fy mod yn cymdeithasu gymaint â neb, a mwy na'r rhan fwyaf, roeddwn i hefyd yn mwynhau'r cwrs yn fawr iawn. Ro'n i eisio gradd ddosbarth cyntaf a bod yn Rafin y Flwyddyn!

Cyn mynd, roeddwn i wedi bod mewn dipyn o fyd am sut i godi nodiadau taclus a chynhwysfawr y gallwn i droi atyn nhw ar gyfer yr arholiadau, er nad oeddwn i cweit mor awyddus â merch a eisteddai wrth f'ymyl yn un o ddarlithoedd yr Athro Derc Llwyd Morgan ar 'Ddychymyg y Methodistiaid'. 'Y dewis pwysica a wna dyn,' meddai fo wrth drafod *Cyfarwyddwr Priodas* Williams Pantycelyn, 'ydi dewis cymar priodas.' O leia wnes i ddim rhoi'r geiriau hynny ar bapur. Ac eto rhyfedd o beth, dwi'n eu cofio hyd heddiw. Cof clust ydi hynna ac mi ddown ato eto yn y man!

Yn fy mlwyddyn gyntaf, mi wnes i benfeddwi ar ddarlithoedd yr Athro Bedwyr Lewis Jones ar y Pedair Cainc. Doedd o'r fath gyfathrebwr, byddai wedi gwneud cyfarwydd gyda'r gorau! Byddai'n crwydro i bob man, i'r Wyddeleg, i gartrefi gwerinwyr Morgannwg, i Ffrainc yn oes y trwbadŵr, i gartre Morrisiaid Môn, ac i gartre ei fam yng nghyfraith yn fy milltir sgwâr i – Morfa Nefyn. Bydd llawer ohonoch chi yn cofio slot dra phoblogaidd Bedwyr ar y rhaglen radio *Yn Ei Eiflen* yn yr 80au a'r 90au yn trafod enwau lleoedd. Roedd Bedwyr yn gwisgo'i ddysg yn ysgafn, doedd o ddim yn edrych nac yn swnio fel ysgolhaig. Mi es i i Adran y Gymraeg Bangor yn meddwl y cawn ddysg ac ysgolheictod o fewn cloriau llyfr, ac mi ces i nhw a threuliais rai o fy oriau hapusaf yn Llyfrgell Hugh Owen yno.

Ond doedd dim angen sgrifennu gair o ddarlithoedd Bedwyr; roedden nhw'n byw yn fy nghof. Ac wrth fynd ati i sgwennu **Capten**, roedd hynny'n un nod oedd gen i: sgwennu rhywbeth oedd, er ei fod yn dod o'r gorffennol – yn teimlo'n fyw ac yn real.

Ar ben blwyddyn ym Mangor dois adra, i weithio dros yr haf yn siop ffrwythau Nefyn, mynd i gyngherddau Edward H a chrwydro'r dre a'r penrhyn gyda chlustiau oedd wedi eu hagor a'u mireinio i ryfeddodau a chyfoeth yr iaith lafar. Cofiaf fynd i gael te efo cyfyrdres i Mam yn Llangwnnadr a chlywed y gair 'cremstio' am y tro cyntaf. Sylwais be oedd Mam yn galw'r tatws rhost bach yng nghorneli'r tun cig 'rhwtiwns', sylwais mai 'addfad' a ddywedaid hen bobol Nefyn, nid 'aeddfe'd', mai 'surdan' oedd 'penstandod', bod 'lliwied' fel yn y Mabinogi yn air byw, a bod 'gwastrodur' ar lafar gwlad yn gallu golygu 'staes'. Y ffordd orau o gofio gair ydi ei aildefnyddio fo, a'i roi ar dafod leferydd a dyma ddechrau eu dweud nhw, eu blasu ar fy nhafod, a mwynhau eu sain.

Ond o feddwl, roedd y cyfnod o ddechrau hel deunydd ar gyfer *Capten* yn mynd yn ôl ymhellach na hynny. I ddyddiau **Ysgol Nefyn** dan y prifathro Ioan Mai Evans. 'Meinir, mae gen ti ddawn sgwennu.' O? 'Mae Nefyn yn lle efo hanes difyr.' Cawsom hanes y twrnameint yn 1284 ganddo wedyn a hanes y capteiniaid. 'Ewch i holi Mrs Sarah Trenholme am Nefyn pan oedd hi'n hogan bach.' Wedyn yr aeth Robin Gwyndaf yno ar ran San Ffagan i recordio'r hen wraig a chreu'r gyfrol diddorol **Blas ar Fyw**. Cael trip ysgol rownd Pen Llŷn, a mynd i ben Tre Ceiri ac Uwchmynydd. Cael mynd ar gwrs Llenyddiaeth ar Amgylchfyd ym mhlasty Glynllifon. Pethau felly. Dros hanner can mlynedd yn ôl roedd hadau'n cael eu hau. Byddwn wrth fy modd hefyd yn gwrandao ar Mam, ac ar fy modrybedd, a dynion rownd fwrdd y gegin adeg cneifio neu gario gwair, yn sôn am 'ers talwm'. O'r cyfnod pan oeddwn tua deg oed ymlaen, roedd yna ryw system ffeilio ar waith yn fy ymennydd: geiriau, ymadroddion, darluniau, pobol, hen yd y wlad, bywyd amaethyddol, dillad yr oes a fu, atgofion hen gryduriaid. Doeddwn i ddim yn ymwybodol o'r peth, a does gen i ddim llyfrau nodiadau na dim o'r cyfnod cynnar yna wrth gwrs. Rhywbeth broses otomatig oedd hi.

Ond pan ddois i i ysgrifennu **Capten**, rhyfedd o beth oedd fel y daeth yr hen eiriau, y darluniau seipia a'r atgofion yna o'r hen gwpwrdd ffeilio yna yn fy isymwybod, a ffeindio eu ffordd i'r tudalennau. Roedden nhw fel rhyw greaduriaid a fu'n hir gysgu gan ddeffro pan oedd yr amgylchiadau'n iawn. O'i ddweud o felna, mae'n swnio fel ffilm arswyd, bron!

Am gyfnod o wyth mlynedd cyn i mi ddechrau sgrifennu'r nofel *Capten*, rhwng **2011 a 2019** mi fûm i'n gweithio fel rheolwr prosiect yn **Amgueddfa Forwrol Llŷn** yn Nefyn. Roedd hyn ar ôl i mi ddiharthu ar gyfieithu a chydabod o'r diwedd fy mod i'n rhy greadigol ac anniddig i'r grefft honno. Yn ystod y cyfnod hwnnw, bûm yn ceisio moeli fy nglustiau am iaith yr hen longwrs a chapteiniaid ond roedd hi wedi darfod o'r tir a'r capteiniaid i gyd bron yn dawel yn y mynwentydd neu dan y don. Roedd yna ambell berl wedi ei gadw, megis sgwrs radio i'r BBC rhwng pedwar hen gapten wedi ymddeol sydd wedi ei chofnodi yn Rhifyn 5 y cylchgrawn hynod hwnnw **Cymru a'r Môr** (recordiwyd ym mis Gorffennaf 1937). Capten David Williams, Morfa Nefyn, Capten Griffith Roberts, Capten William Price, a Capten Daniel Evans, Tyn Llys Morfa Nefyn. Ambell glip ffilm wedyn ac erthyglau gan Aled Eames a fu'n sgwrsio gyda llawer o'r hen gymeriadau morwrol yn ystod ei waith ymchwil, ac yn ddiweddarach Robin Evans, Moelfre. Mi fyddwn yn bachu ambell air gan ambell sgotwr neu hen longwr neu hanesydd lleol. Un o'r rheini oedd 'wennol' am y teclyn bach trwsio rhwydi pysgota pan ddaeth un hen fachgen â chasgliad i ni. Gwaith llaw i gyd ac wedi eu harddangos yn yr Amgueddfa yn Nefyn – cofiwch alw draw.

Ond roedd yn dalcen caled.

Dyma droi felly at y gair printiedig a dechrau **darllen**. Darllenis hunangofiannau, fel **Ar y Bont** ac **O Flaen y Mast** W E Williams, **Blas y Môr**, John Penri Davies, **Ar Frig y Don**, Capten Ellis Roberts, **Llongwr o Roslan**, John Jones Williams a llawer mwy. Tuedd hunangofiannau o'r cyfnod hwn oedd bod yn llenyddol a ffurfiol, y Gymraeg yn ei dillad gorau! Ac roedd gan yr hen gapteiniaid Gymraeg digon o ryfeddod. Wrth ysgrifennu roedden nhw'n dewis cefnu

ar y llafar, a'r tafodieithol ac ysgrifennu'r gair iawn, y gair llenyddol – 'dramor' nid 'fforin', 'y brif hwyl' nid 'mensêl', 'hwyllo'r arfordir' nid 'coastio' a 'taith' nid 'feiej'. OND, os cewch chi gyfle i ddarllen sgript sgwrs y capteiniaid (ac mi fyddai'n wych ei chyhoeddi yn y cylchgrawn hanes newydd *Hanes Byw* dan olygyddiaeth Ifor ap Glyn) mi welwch mai'r iaith lafar gewch chi yno: iaith sgwrs nid iaith llyfr. A'r sgwrs wedi ei phupro efo termau Saesneg o'u byd gwaith nhw.

Dyma a ddysgais ac y mae'n beth difyr: roedd ffuglen yn rhoi mwy i mi na deunydd ffeithiol. Pori mewn cyfrolau fel *Yr Hen Forwr*, *Ar Frig y Don* a'r *Fordaith Bell*. Darllen wedyn nofelau plant **R Lloyd Jones**, prifathro ysgol gynradd o Borthmadog a mab i gapten llong – *Ym Môr y De*, *Atgofion Hen Forwr* ac *Ynys y Trysor*. Roedd ganddo nofel arall i'w enw hefyd, o'r enw **Capten!** (cyhoeddwyd hon yn 1928.) Ei nofel fwyaf llwyddiannus, yn sicr oedd ***Mêt y Mona***, nofel antur wedi'i gosod ar long. I ni heddiw, mae ei deialog yn swnio'n ffurfiol, ac anghredadwy yn wir. Mewn sgwrs ar ddechrau ***Mêt y Mona***, yn yr argraffiad cyntaf clywn ddau hogyn ysgol gynradd, tua deg oed, ac un o'r ddau yn galw'r llall yn 'ngwas i' a 'rhen ddyn' ac yn dweud mewn munud o berygl 'Dyma hi ar ben arnom, Wil annwyl'. Tybed a oedd hogiau deg oed yn siarad felna efo'i gilydd yn 1928? Ond o chwynnu ymadroddion fel hyn sy'n swnio'n boenus a chwerthinllyd o annaturiol i ni, fel y gwnaed yn yr argraffiad newydd yn 1984, mi gewch ddeialog naturiol a chyhyrog. Roedd R Lloyd Jones hefyd yn ddramodydd a chlust dda ganddo.

## DYLANAWADU LLENYDDOL EHANGACH

Wrth gwrs roedd yna ddylanwadau llenyddol eraill. Fel y sylwodd Manon Steffan Ros yn ei beirniadaeth, mae ôl Kate Roberts yna. Rydw i'n ffan enfawr o'i gwaith ac er nad ydw i wedi darllen cymaint arno yn ystod yr ugain mlynedd diwethaf, mae rywsut wedi hydreiddio i mewn i mod i. Hoff awdur arall, ac un y gwirionais ar ei harddull a'i hiwmor pan ddarllenais ei gwaith gyntaf, ydi Winnie Parry, awdur ***Y Ddau Hogyn Rheini***. O ran nofelwyr hanes yn y Gymraeg, mae Marion Eames, Rhiannon Davies Jones, Gwynn ap Gwilym a merch leol arall Elizabeth Watkin-Jones yn amlwg. Byddaf wrth fy modd efo hen hunangofiannau, yn enwedig y penodau agoriadol am hanes blynyddoedd cynnar, fel hunangofiant mam John Rowlands. Mi borais dipyn hefyd mewn hen gylchgronau a phapurau newydd, yn arbennig ***Y Frythones*** a ***Cymru*** O M Edwards.

Ond yn ystod y cyfnod yna o ddarllen a dechrau hel syniadau, gwneud nodiadau digon blêr a chynllunio bras, wrth i'r stori ddechrau ymffurfio, daeth yn amlwg i mi y byddai arnaf angen geirfa benodol ar gyfer y nofel: ac i ddechrau cychwyn:

## GEIRFA FORWROL

Y ffynhonnell fwyaf cyfoethog o eirfa forwrol i mi oedd cerddi J Glyn Davies, neu **Caneuon Fflat Huw Puw**. Deuai J Glyn i Edern ar ei wyliau ar ddechrau'r ganrif ddiwethaf, at deulu ei dad, a bu'n gweithio yn Lerpwl i ddau gwmni llongau mawr sef Rathbone Brothers a Thomas

Williams and Co. Bu ei frawd, Frank yn gapten ar y môr ac roedd yntau yn ei elfen ar longau a thraethau Llŷn. Yn ei ganeuon môr, ei shantis, defnyddiodd J Glyn Davies nid iaith ffurfiol y pulpud ond Cymraeg llafar gartrefol, iaith gwaith a chwarae. Caneuon i blant oedd caneuon Fflat Huw Puw yn wreiddiol ac felly mae'r iaith yn syml. Cymraeg y byddai J Glyn Davies wedi ei chlywed oedd hon, nid ei darllen, mae hynny'n saff – ar draeth Henborth yn Llŷn ac ar fyrddau stimeri a llongau hwylio.

Dyma i chi rai o'r geiriau a godais wrth fynd â chrib mân drwy'r cerddi i roi blas:

**morio, blw pitar, blocia, moryn, rowlio'n braf, halio, tacio, rigin, riffio'r hwylic, warpio, ffortopsl, brisy.**

Ffynhonnell arall werthfawr o eiriau morwrol fu'r gyfrol *Hen Longau Sir Gaernarfon* gan y diweddar David Thomas, taid Angharad Tomos yr awdur. Mae hon yn gyfrol bwysig, sy'n amlinellu hanes llongau, cargos a phorthladdoedd yr hen Sir Gaernarfon dros gyfnod o dros dri chan mlynedd, ac yn gampwaith o hanes morwrol. Mae fy nghopi yn dipiau.

Dyma rai o'r geiriau a godais wrth ddarllen hwn:

**Llongwr medrus, shipio, tunelliad, starn, sgwarl, mensel, cario gormod o liain, teitiau mawrion, hwylio ar led, allforion ac adforion ( y llwythi oedd yn mynd allan ac yn dod i mewn), cwlm, calloriad, tradio, lanshio, cestog/crothog, calcio, ropog, toeo, bwndalîns,**

Mi enwaf ddwy ffynhonnell arall ffrwythlon – ffynonellau lleol ydi'r rhain eto.

Y gyntaf ydi dyddiadur Elen Owen. gwraig Capten Thomas Owen, Minafon Tudweiliog *Gwraig y Capten* Ysgrifennodd y dyddiadur ar fordaith yng nghwmni ei phriod yn 1882 ar y *Cambrian Monarch* i'w ddangos i'w chwaer Sarah adref yn Nhyddyn Sander. Golygwyd y gyfrol sy'n llawn gybodaeth gefndir werthfawr gan ysgolhaig morwrol arall, Aled Eames. Roedd Ellen a aned yn 1845, yn ferch fferm Pwllcud yn mhlwy Tudweiliog fferm helaeth o 260 acer ac yn un o wyth o blant ond rhwng 1849 a 1857 bu farw pump ohonynt, gan gynnwys yr unig fab, ac anfonwyd Ellen i ffwrdd i'r ysgol ym Mhwlheli. Mae'n debyg mai ysgol i 'gentlewomen' fyddai hon, ac y byddai wedi cael gwersi mewn bod yn ledi a gwaith llaw – roedd sôn am ei gwaith crosio, gwnio a gwau arbennig. Ond fyddai yno ddim addysg Gymraeg. Ysgrifennwyd y dyddiadur mewn Cymraeg cartrefol iaith y gegin a'r pentref. Byddai ei hiaith hi a iaith Elin Jones a'i theulu wedi bod yn debyg iawn.

Mae'r sillafu yn ffonetig, roedd hyn dros 30 mlynedd cyn *Llyfr yr Orgraff* John Morris Jones, ac mae'r sillafu'n annwyl ac yn unigryw.

Dyma ddau ddarn byr i chi:

**Dydd Gwennar 17 March 1882**

**Nid ydi yn chwythu llawer heddiw. Ond y mau yn rowlio tipin weithiau, yr ydym am ladd y Mochun y prutnhawn yma. Nid oes gin yr Afr ddim hannar cymaint o lath y towydd yma, ac y mae yr ieir yn rhoi gora i ddwdwu hefud.**

**Yr oeddwn yn meddwl echnos yn y towydd mawr geisom i, a towydd mawr iawn oedd hi hefud, mor braf fuasa hi yn Cors Iago. Y mau Llongwrs y cyrdiriad yn cael a'i meuddu yn arw. Weithiau ni all neb sydd heb fod yn gwubod ddarlinio. Yr hyn euthom er dou 68 Milltir.**

**Feb 8**

**Y mau y brisin yn ysgafnach heddiw. Ond y mau y gwynt yn deg, yr hyn sydd o hono, y mau yr Orangs yn dda iawn. Y mau yn dda gin i fod genyf gymaint o honynt, os y daliant heb fund yn ddrwg. Crosio yr ydwyf wedi bod yn i wneud ers pan yr wydwyf wed hwilio. Mi fyddaf yn golchi y cwbl i i fy hun ag i Tom hefud. Y mau yma le rit braf i olchi. Mi fyddaf yn teimlo yn rit gartrefol yn y llong a phawb yn od o garedig i mi. Mi wnawn un peth. Y mau fy nillad isa i gid yn lan.**

Byr ydi'r dyddiadur ond roedd yn ffynhonnell gyfoethog o ran geirfa: **passage, ordors, halio, brisin, croesi y line, slant, siort (prin), sgôls o wynt, sgoliog, part da or daith, pyffiau o wynt** Byddai Ellen Owen wedi codi'r eirfa gan ei gŵr y capten Thomas Owen, a'r criw.

**Gan aros yn yr un ardal rhaid** sôn am un dylanwad arall ar iaith forwrol **Capten**. Ysgrif y tro hwn sydd i'w gweld mewn cyfrol fach o'r enw **Ar Fy Myw** (a olygwyd gan Manon Rhys), cyfrol sy'n cynnwys sawl darn hunangofiannol gan ferched. Awdur yr ysgrif dan sylw ydi Nan Roberts, merch y Post Eder, un y bu ei thad, a'i thaid, brodyr ei thad a'i gŵr yn gapteiniaid ar y môr. Mae hi newydd ddathlu ei chant oed! Yn yr ysgrif mae hi'n dangos fel roedd bywyd ar longau ac ar y cefnforoedd wedi treiddio fel heli môr i mewn i'w cartref nhw.

**Capteiniaid llongau oedd fy nhad a 'Nhaid, fy nhad ar longau ager a Taid wedi bod ar longau hwyliu. Yn tŷ ni, doedd neb yn bwyta gormod; 'chwythu am dygs' oeddech. 'Bylc héd' oedd y parwydydd, a 'port hôls' y ffenestri. Os byddai Nain yn plygu i wneud rhywbeth, 'Symud dy starn o fy wêc,' meddai Taid.**

Mae'r ysgrif a'r paragraff a ddyfynnwyd yn wir hon yn allweddol am fy mod i wedi eu defnyddio fel ciw, os leciwch chi, ar gyfer cywair morwrol y nofel. Yn **Capten** rydan ni'n gweld y cymeriadau yn defnyddio offer a phetheuach o fyd gwaith morwrol yn eu bywydau bob dydd: hen hwyl i wneud nenfwd i siambr y Ffridd, darn o hwyl sbâr i wneud ffedog, hen

hoelen chwech fel bachyn. Felly y gwnes innau i ddefnyddio'r ysgrif yna, na fel **bachyn** sy'n gosod cywair iaith y nofel. Iaith y llong a iaith y cartre, iaith y môr ac iaith yr arfordir.

O ran cywair, llyfr arall hollbwysig, oedd hunangofiant J Ifor Davies **Growing up Among Sailors**, llyfr y mae'r awyrgylch drwyddo yn drwyadl Gymreig a morwrol ac sydd wedi costrelu awyrgylch y lle a'r cyfnod. Cyhoeddwyd hunangofiant J Ifor Davies gyntaf yn 1983, gan Archifdy Gwynedd ond mae'r Nefyn a'r gymdeithas forwrol a ddisgrifa yn mynd yn ôl i'r cyfnod ar droad y ganrif ac yn pwysu cryn dipyn ar atgofion ei fam, Grace a fu ar y môr efo'i gŵr am saith mlynedd nes i'r plentyn hynaf ddod i oed ysgol. Mae o'n ysgrifennu'n ddeallus ond yn hwyliog, yn onest a chraff. A rhyw hiwmor cynnil drwyddo.

Yn Saesneg y mae'r gyfrol, roedd yr awdur yn gynnyrch system addysg gwbl Seisnig ac mae mewn ffordd mae hynny'n drueni. Ond da o beth i mi ei bod yn Saesneg achos roedd hynny wedyn yn creu rhyw bellter rhyngof i a'r byd yna pan es i ati i'w ail-greu o. Ail-ddyfeisio byd ieuencid ei dad Capten William Davies, Craig y Môr, Nefyn capten y *Monkbarns* a wnes i ar un olwg, cymdeithas y mae'n ei disgrifio fel '**a bustling community... buoyant with a quiet confidence**'. Cymdeithas lawn o bobl, o gymeriadau, cymdeithas hunangynhaliol i raddau helaeth a'i thraed yn y dŵr a'i dynion yn hwylio i'r pum cyfandir.

Y rhain oedd fy *soundbites*, os mynnwch chi. Y dwy gyfrol yma a roddodd i mi deimlad ac *aura* y gyfrol.

Ond down yn ôl at yr iaith, ac mi wna i darllen darn byr i roi i chi flas y môr, yr iaith a'r dafodiaith. Ar y traeth ydan ni, ac ar fwrdd y *Mairwen* a Chaptan Rol ac Adi wrthi'n brysur yn paratoi ar beintio.

*Yn eu prysurdeb, chlywon nhw mo'r ystol raff yn gwichian dan bwysau traed, na sŵn gwichian y bwrdd ar y starbôrd seid. A phan ddaw y dyn i'r golwg, yn wên agored, yn siŵr o'i groeso, mae'n amlwg ei fod wedi codi eu sgwrs nhw ill dau.*

*"Ex-meridian of stars?" Mae o'n edrych ar y ddau, yn resin ac yn had lli am y gwelwch chi, gwallt Adi wedi dod yn rhydd a chap y capten ar ei wegil. "Mae peth felly'n hen ffasiwn ers blynyddoedd. Run fath â phob dim ffor' hyn, os ydach chi'n gofyn i mi."*

*"Ond dydan ni ddim yn gofyn i chi." Am funud, mae Capten Rol yn stopio cymysgu ac yn straffaglio i godi ar ei draed. "Chlywish i mo'r geiria 'Permission to board', choelia i byth. Byddwch cystal â mynd a disembarcio y ffordd daethoch chi, wr ifanc, cyn i mi ofyn i un o 'nghriw roi ffling i chi."*

*Unig ateb yr ymwelydd ydi troi i edrych ar Adi, ac ysgwyd ei ben. Try yn ôl i wynebu'r capten, a'i ddwylo allan i'w dawelu.*

*"Dwi'n pledio maddeuant. Dim ond dŵad abôrd wnes i rhag ofn eich bod hi'n heirio. Ond dwi'n gweld rŵan eich bod chi dan repairs."*

*"Yn union felly."*

*Edrycha allan i'r bae wedyn ar y sgwneri, y smac a'r ddwy brig sy'n gorwedd yno. Rhyngddyn nhw mae cwch sgota yn gwau ei ffordd tua'r lan a hogyn wrthi'n sbydu'n galed. Ac er bod yna hwrlu bwrlu o brysurdeb, mae yna hefyd dawelwch.*

*"Mae fanma yn lle braf, ond i lawr eith o wrth i longa fynd yn fwy. Y stimars mawr ma, efo compound engines, rheinia ydi'i bois. Mi welodd Hugh Roberts do, Hugh Roberts Llain Hir i chi'ch dau, fod dyddia llonga hwylio'n dod i ben, mi fachodd y cyfla, a'i heglu hi i oma, a gneud ffortiwn yn y fargen."*

*"Mab Hugh wyt ti?"*

*"Naci, mab Jinnie Rhoslas, ei gyfnither o."*

*"O, wedi dŵad i lawr i gladdu dy daid, Nedw felly, debyca."*

*"Ia, mae gin i fwy na digon i neud, os ydw i'n onast, ond bod rhywun wedi arfar efo rhywun o'i gwmpas o hyd mewn dinas. Dwi acw fy hun ers pythefnos a does yna fawr o sgwrs gan yr ieir."*

*"Wel cynta yn y byd gorffenni di, cynta'n y byd y cei di fynd yn d'ôl. Ond mi fydd gamp i ti -."*

*"Captan, mae'r gymysgadd 'na'n bygwth cledu, daliwch i droi!"*

*Ac mae Adi yn gollwng ei thŵls, yn rhuthro draw at y capten ac yn y gafael yn y darn pren sy'n troi'r gludiach o'i law. Munud neu ddau a byddai'n lwmp solat, a hi fyddai'n cael y job fain o fynd draw at Ifan Jôs y saer i swnian am fwy o resin heb bres i dalu amdano fo.*



## GEIRFA LAFAR TAFODIAITH

Roedd yr eirfa forwrol, felly, yn ffrwyth ryw fath o ymchwil neu chwilota. Ond mae'r nofel hefyd yn llawn o eirfa dafodieithiol, a hynny yn y ddeialog ac yn traethiad ei hun hefyd. Mae'n rhan o'i gwead hi.

**Mae'r eirfa lafar ei naws yn *Capten* yn rhannu i ddau ddsbarth.**

**Geiriau wedi eu benthyg o'r Saesneg** oedd ar dafod leferydd pobol i gychwyn: yr *hearing*, bildio, disembarcio, niws, howndio, ffwtwocio, jest, slap-yp, howtluo, abôrd, sêlmecyr (mewn sgwrs), heb ddowt, ham-byg, planio, swingio, cocwân, gwneud start arni, tryst, holide, iwsio, entri.....

Mae'r rhain ar y cyfan yn digwydd yn y ddeialog wrth i bobol sgwrsio efo'i gilydd, ond weithiau hefyd yn y traethiad. Mwy am hynny toc.

**Geiriau ac ymadroddion tafodieithol yn perthyn i Lŷn ac Eifionydd** Mewn gwirionedd, ffurfiau wedi dod o'r Saesneg ydi llawer o'r rhain hefyd. Sgragan o gath, howtluo (o outlaw), horwth, hafflau, magu mân esgyrn (disgwyl babi), hyd y patsys, dyffeio i di (defy), cadw cow, fel gwain am dwca (rhywbeth tyn), stori goets fawr, cachiad nico, tatws mwtrin, piwsio, hornio crio, prifio.

Yn achos bob un o'r rheina a godais i gan bobol eraill, gallwn ddweud gan bwy y clywais y gair neu'r dywediad ac yn lle.

Yr unig air roddais i i mewn, gair tafodieithiol, nad oeddwn i fy hun yn ei wybod nac yn ei defnyddio ond yr oeddwn wedi ei lecio fo oedd **climach**. Mewn ysgrif yn y cylchgrawn **Lleufer** (cylchgrawn Cymdeithas Addysg y Gweithwyr) 1949 y gwelais i o gan J Glyn Davies yn disgrifio'r hen gapten Harry Parry, neu Harri Hyll, capten slŵp bach o'r enw'r *Messenger* a aeth *aground* yn Abersoch. Holais o gwmpas ond doedd neb arall fel petaen nhw yn gyfarwydd â'r gair yn yr ardal yma. Oedd o wedi bodoli ac yna wedi marw allan, meddyliwn. Mae'r enghraifft fwyaf diweddar ohono yng Ngeiriadur Prifysgol Cymru yn dyddio'n ôl i 1753, gan Goronwy Owen, 'climach o ddyn afrosgo'! Ac yna darllenais **Straeon y Pentan**, Daniel Owen a dyna lle'r oedd 'climach', yn ymddangos sawl gwaith! Tybed oedd J Glyn wedi ei godi wrth ddarllen Daniel Owen? Ynteu a oedd o'n air byw ymhlith y Cymry yn y cyfnod pan fu J Glyn a'i deulu yn byw yn Sir y Fflint yn eu cartref Llannerch-y-Môr ger Mostyn pan oedd yn darlithio yn Lerpwl?

Rhaid i chi fy nghredu pan ddweda i na wnes i ymdrech fwriadol i stwffio geirfa dafodieithol i'r nofel. Yn ystod y broses sgrifennu, ac roeddwn i'n ceisio ysgrifennu'n ddyddiol er mwyn cadw'r lliw i fynd, ac aros yn y *zone* neu 'fyd' y nofel, roeddwn i fel petawn i'n gallu fy rhoi mewn **dimensiwn ieithyddol gwahanol, mewn rhyw sffêr ble'r oedd yr iaith yna yn iaith fyw**. Honno oedd yr iaith a glywn ac a ddarllenwn ac a ysgrifennwn. Trwy ryw broses nad ydw i yn ei deall, roeddwn i'n gallu mynd yn ôl i Nefyn, Ffridd a thraeth Henborth yn 1893-4.

Wrth drafod llunio nofelau hanes ar Desert Island Disks yn ddiweddar dyma gyngor yr hanesydd a'r newyddiadurwr Peter Hennessey i unrhyw awdur cyfrol hanesyddol: "Move in with them." Ac mi roeddwn i yno, yng Nglan Deufor a *rooms* Meri a Peter, y Ffridd ac ar fwrdd y *Cambrian Queen*. Roeddwn i'n clywed Elin, John, Sydna, Gruffydd, Hughie a phawb arall yn siarad, a safwn yn glos atynt. Yna ffarweliwn i ddod yn ôl i'r presennol, i Tacho fy nghartra at Geraint i fwyta, cysgu a byw hanner arall fy mywyd. Am flwyddyn a hanner, bûm yn byw mewn dau fyd a dau amser.

**Ffwtwocio, bynafyd, paldaruo...** Fedra i ddim gwadu, mi wnes i fwynhau eu defnyddio nhw i gyd, roedd o fel estyn dillad o'r wardrob oedd heb fod allan ers talwm, a rhoi'r cyfan ohonynt nhw allan mewn sbloet liwgar. Wnes i ddim dal yn ôl, mae'n wir. Wnes i ddim mynd am gynildeb. Ond doedd y siop i gyd ddim yn y ffenest chwaith, roedd yn rhaid i bob gair ac ymadrodd dalu am ei le!

Yn gynharach eleni mi ges i'r profiad o recordio **Capten** ar gyfer **Llyfrau Llafar** a bu'n dipyn o brofiad, ac o ysgol brofiad! Mae hi'n nofel hir, dros gan mil o eiriau a chymerodd aml sesiwn estynedig o ddarllen. Byddwn yn aml yn baglu dros ryw air neu frawddeg ac leuan, y technegydd sain yn dweud yn smala, wrth i mi duchan a chwyno "Pwy sgwennodd hi, dwch?" Byddai oriau yn mynd y noson cynt i baratoi – darllen, cwtogi ambell frawddeg aml gymalog i'w gwneud yn haws ei darllen, ac ymarfer mynd dros ambell lond ceg o ddeialog. Dangosodd y profiad i mi fod y nofel o bosib yn heriol i rai darllenwyr. A hynny am fwy nag un rheswm.

- Brawddegau mawr trymlwythog,
- geirfa ddiarth (bu dysgwr o Went yn fy e-bostio am rai wythnosau ddiwedd llynedd yn holi am ystyr geiriau tafodieithiol, fel cadw cow (dydi hwn ddim yn Geiriadur Prifysgol Cymru!, cyw gŵydd, ffwtwocio a mwy ) a
- thafodiaith.
- Dywedodd un ferch o'r Rhondda, sydd wedi meistrolï'r Gymraeg wrtha i y basai hi wedi hoffi esboniad o'r eirfa forwrol, ac ambell un arall y byddai esboniad o rai geiriau tafodieithol wedi bod yn handi.
- Mae yna dipyn o gyfeiriadaeth Feiblaidd ynddi a rhywfaint o iaith amaethyddol.

Does yna ddim geirfa yng ngefn **Capten** a fyddwn i ddim yn rhoi'r geirfa mewn unrhyw adargraffiad. Yn y bôn, dydw i ddim yn credu fod anhawster i ddeall unrhyw air yn mynd i lesteirio mwynhad rhywun o'r stori. Mae grym y naratif, gobeithio, yn eich cario ymlaen. Mae'r iaith lafar yn rhan intrinsig o'r gwead ond dylai'r stori allu aros ar ei thraed heb rai o'r geiriau tafodieithol dwi wedi dewis eu cynnwys. (Tybed a fasai hi'n gweithio yn Saesneg?)

O'i chael yn ôl eto mewn teipysgrif, mae'n bosib y byddwn yn symleiddio rhywfaint ar yr atalnodi, ac yn tynhau rywfaint, ond dim llawer o ddim arall.

**Saesneg**, mae'n well i mi ddweud rhyw air byr, beryg, am y Saesneg sydd ynddi hi.

Yn fyr, un gŵyn ges i am y Saesneg.

Dwi'n cytuno efo amryw o'r sylwadau cyffredinol a wnaed, ond ar ôl dweud hynny, yn argyhoeddiadol fod yna bwrpas i'r Saesneg yn **Capten**, ei fod yn gweddu ac yn cyflawni diben o bwys. Mae yna lai na .7% o'r nofel yn Saesneg. Mae'r llythyrau ac yn ati yn ddogfennau hanesyddol, pethau a gadwyd gan y teulu dros gyfnod o gan mlynedd a mwy. Rhyw ddwy neu dair sgwrs arall sydd yn Saesneg, a hynny pa welwn Elin yn dal ei thir yn ei hail iaith yn erbyn dynion monoglot hunanbwysig ac uwch ei statws na hi. Ac mae yna gyferbynnu rhwng cymdeithas fach Gymraeg ei milltir sgwâr hi, a'r byd mawr tu hwnt a'i holl Saesneg, byd gwaith, busnes a masnach.

### CREU BYD NAD YW'N BOD BELLACH

Ond awn yn ôl at y Gymraeg. A'r arddull am funud bach. Un elfen yn **Capten** ydi'r hen eiriau ac ymadroddion. Am ei bod wedi ei hysgrifennu yn yr **amser presennol** mae rhywun hefyd yn clywed rhythmau a chystrawennau y Gymraeg lafar, gyhyrog a siaradai'r werin dros gant a deg ar hugian o flynyddoedd yn ôl. Cymraeg pobol uniaith, lawer ohonyn nhw. Un o'm hoff awduron i yn y Gymraeg ydi J G Williams, awdur *Pigau'r Sêr*, 1969, cyfrol oedd yn torri tir newydd pan gyhoeddwyd hi yn am ei deunydd o'r dull llif ymwybod o ysgrifennu. Ar ôl darllen nofelau Hilary Mantel, trioleg **Wolf Hall** a chlywed ei chynghor yn ei **Reith Lectures** y penderfynais innau roi cynnig ar ddweud fy stori yn yr amser presennol er mwyn rhoi iddi uniongyrchedd a'r teimlad o fod yn y fan a'r lle. O'r dudalen gyntaf, roedd fel gyrru car newydd (er ches i erioed gar newydd!) darganfod ei fod yn otomatig, a choedio mynd ymlaen heb orfod ymboeni am unrhyw fecanics.

Un o brosiectau difyr Ecoamgueddfa Llŷn dros y blynyddoedd diwethaf fu trwsio un o gychod Aberdaron, clincar, dros un gaeaf yng ngweithdy Canolfan Felin Uchaf yn Rhoshirwaun. Sgil gynnyrch i'r prosiect ydi ffilm tua thri chwarter awr o hyd, **Gwylan**, yn cofnodi'r gwaith, a dau sef Guto Williams Ffatri Pencaerau a Dafydd Siôn yn siarad efo'i gilydd wrth i'r gwaith fynd yn ei flaen. Tonnau eu sgwrs, y mân siarad yna, y chwerthin harti, yr eirfa, y cystrawennau, suo sŵn eu lleisiau nhw. **Hwnna** wnes i geisio ei ail-greu.

Mae'r naratif a'r sgyrsiau yn nes at ei gilydd yn gyffredinol yn *Capten* nag mewn llawer o nofelau. Does yma ddim bratiaith, ac am ei bod yn nofel hanes, o'r cyfnod 1893-95 mae gan y gymeriadau iaith a chystrawennau Cymraeg cyhyrog. O ran y ddeialog, wel chlywes i erioed neb o 1893 yn siarad. Deialog mewn llyfrau o'r cyfnod ydi'r peth agosa oedd ar gael. Mi wnes i addasu rhywfaint i'r glust fodern, er enghraifft dwi'n cymryd fod pobol y cyfnod yna'n defnyddio mwy ar ffurfiau cryno'r fer. Mi dyrr (nid mi dorrit), tollt (yn lle tollta **Tollt yn hy**), mi glyw, mi yrr o'i ddefaid i'r mynydd, mi ddeil.

Mis Medi llynedd, yn y cyfnod yna pan oedd pobol wrthi'n darllen cynnyrch Steddfod Tregaron mi ges i e-bost dadlennol gan **Siân Wyn Siencyn**, genedigol o Fôn ond bellach yn

byw yng Ngheredigion. Fel awdur, roeddwn i'n meddwl fy mod i'n adnabod fy llyfr yn dda, ond mi ddatgelodd hi rywbeth mor hynod o ddiddorol am *Captan*, sef hyn:

**“YR ALLWEDD I FI YW EI DARLLEN FEL STORI SY’N CAEL EI DWEUD GAN STORIŴWR. YN SYML FELLY, BOD CYMERIAD ADRODDWR Y STORI YN GYMERIAD YN EI HAWL EI HUN. MAE’R STORIŴWR YN DWEUD HANES ELIN A JOHN, ADI A HUGHIE AC MAE LLAIS ARBENNIG IAWN GAN Y STORIŴWR (AC NID YR AWDUR YW’R STORIŴWR, NID MPJ PIA’R LLAIS)**

**GAN FOD Y STORIŴWR YN ADRODD YR HANES YN NHAFODIAITH Y CYFNOD, MAE HYN YN CYFIAWNHAU Y DEFNYDD O’R EIRFA A’R YMADRODDION SYDD WEDI CODI DADL OND BYDDAI FFURFIOLI’R IAITH YN ANONEST AC YN AMHARU AR Y LLAIS AUTHENTIG.**

**I FI MAE’R DEFNYDD CYSON O’R FERF YN Y PRESENNOL YN CADARNHAU’R YMDEIMLAD O STORIŴWR – BRON NAD YW’R STORIŴWR WEITHIAU YN COLLI EI HANADL WRTH DDWEUD Y STORI. DYFAIS ARBENNIG O DDIFYR YW CREU A CHYNNAL NARATIF MEWN LLAIS SY’N YMMDANGOS YN ANNIBYNNOL AR YR AWDUR.”**

Roedd y sylwadau yna mor ddiddorol, ac wedi dangos rhywbeth allweddol i mi am fy nofel fy hun nad oeddwn yn ymwybodol ohono. Ambell noson, pan fyddaf yn methu cysgu, byddaf yn meddwl am y storiwraig yna. Mi wn mai merch ydi hi. O ble daeth hi? Ac i ble’r aeth hi?

Mae cyhoeddi *Captan* wedi bod, mae’n debyg, yn un o brofiadau mawr fy mywyd.

Dyma fy mhumed plentyn!

Mae’n brofiad sydd wedi rhoi llawenydd i mi wrth i bobol (ac yn enwedig dynion!) ddweud wrtha i fy mod i wedi rhoi pleser di-ben draw iddyn nhw! Mi wnes i geisio creu nofel oedd yn dweud stori, ond hefyd yn cyfleu ardal benodol a theimlad. Yn costrelu rhywbeth gwerthfawr. Emosiwn. Llyfr y byddai rhywun am droi ato ar ôl y darlleniad cyntaf, am gysur, fel troi at hen ffrind. Llyfr i’w ddal yn dynn.

Ond mae o hefyd wedi gwneud i mi deimlo’n drist ar adegau, a bod yn onest. Dwi ddim yn cofio pryd y clywais i air tafodieithol ‘newydd’ ddiwetha. Dwi yn gwrando ar Gymraeg llafar pobol, yn clywed yr ansicrwydd mawr am genedl enwau, am ferfau, ac arddodiadi, dwi’n clywed bratiaith a dwi yn meddwl am ba hyd y bydd hi’n ddarllenadwy. At ei gilydd, mae pobl hŷn a phobol hen ffasiwn (fel fi fy hun!) wedi gwirioni mwy efo hi na’r to ifanc. Efalla fod hynny’n naturiol. Dwi’n mawr obeithio na fydd hi ryw ddydd a ddaw yn ddim mwy na dogfen hanesyddol y bydd rhyw efrydiwr yn ei defnyddio i ymchwilio i dafodiaith a hanes cymdeithas forwrol diwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg.

Yn anad dim, stori ydi, nofel ydi. Am bobol o gig a gwaed, am gymdeithas go iawn, am storm fawr ym mywyd gŵr a gwraig. Cerbyd, cyfrwng, cwch – na llong osgeiddig, llawn rig, Yr iaith ydi’r hwyliau sy’n ei chario ymlaen dros y tonnau. Gobeithio nad aiff hi, fel crefft yr hen seiri, yr hen ofaint a llongwyr medrus Nefyn a phob ardal debyg, o gyrraedd dros orwel amser.